

Mae llawer yn digwydd ledled Blaenau Gwent ar hyn o bryd, ac er gwaethaf yr heriau rydym yn parhau i'w hwynebu, rydym yn gwneud cynnydd gwirioneddol wrth wella ein cymunedau a chreu cyfleoedd newydd ar gyfer y dyfodol.

Un o'r pethau rwy'n arbennig o falch ohonynt yw'r cynnydd rydym yn ei wneud gyda Bargen Blaenau Gwent. Mae hyn yn ymwneud â newid y ffordd y mae'r cyngor yn gweithio gyda'n cymunedau, gan sicrhau bod gan bobl leol fwy o lais yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt a'n helpu i gydweithio i wella'r lleoedd lle rydym yn byw. Rydym eisoes yn gweld rhai enghreifftiau rhagorol o hyn ar waith, a gallwch ddarllen mwy amdanynt drwy gydol y rhifyn hwn.

Rydym hefyd yn parhau i ddenu buddsoddiad sylweddol i Flaenau Gwent. Mae rhaglen Balchder yn y Lle gwerth £20 miliwn yn Nhredegar, ochr yn ochr â £1.5 miliwn ychwanegol ar gyfer gwelliannau mewn mannau eraill ar draws y fwrdeistref, yn rhoi cyfle gwirioneddol i ni wneud gwahaniaeth i'n trefi a'n cymunedau.

Bydd ein partneriaeth strategol newydd ar gyfer datblygu a buddsoddi hefyd yn ein helpu i gyflwyno tai newydd, gwella seilwaith, cefnogi busnesau a chreu cyfleoedd ar gyfer y dyfodol. Gallwch ddarllen mwy am rywfaint o'r gwaith hwn ar dudalennau 6 a 7.

Wrth gwrs, mae'r misoedd diwethaf hefyd wedi dod â heriau gwirioneddol, yn enwedig y tanau gwyllt a brofwyd gennym yn ystod yr haf. Gwelais yn uniongyrchol yr ymdrechion aruthrol a wnaed gan ein gwasanaethau brys, staff y cyngor, sefydliadau partner ac, yn bwysig iawn, trigolion lleol a ddaeth ynghyd i helpu a chefnogi ei gilydd. Roedd ymateb Tasglu Cwm yn enghraifft arbennig o dda o'r ysbryd cymunedol sy'n bodoli ledled Blaenau Gwent. Hoffwn gofnodi fy niolch diffuant i bawb a oedd ynghlwm â'r gwaith. Ar dudalen 8, gallwch hefyd ddod o hyd i gyngor defnyddiol ar sut i baratoi ar gyfer misoedd y gaeaf sydd o'n blaenau.

Yn olaf, hoffwn annog cynifer o drigolion â phosibl i gymryd rhan yn ein harolwg Gadewch i Ni Siarad: Byw ym Mhlaenau Gwent. Dim ond tua deg munud y mae'n ei gymryd, ond mae'n rhoi cyfle i chi ddweud wrthym beth sydd bwysicaf i chi, beth rydym yn ei wneud yn dda ac, yr un mor bwysig, ble mae angen inni wneud yn well. Mae eich barn yn wirioneddol bwysig, a bydd yn ein helpu i wneud penderfyniadau ynghylch y gwasanaethau a'r blaenoriaethau sy'n effeithio arnom ni i gyd. Cymerwch ran drwy sganio'r cod QR ac anogwch eraill i wneud yr un peth.

Rydym wedi cyflawni llawer gyda'n gilydd, ond rwy'n gwybod bod llawer mwy i'w wneud o hyd. Rwyf am weld Blaenau Gwent yn parhau i symud ymlaen, a byddaf yn parhau i weithio gyda'n trigolion, ein cymunedau a'n partneriaid i adeiladu ar yr hyn rydym eisoes wedi'i gyflawni a gwneud ein bwrdeistref yn lle gwell fyth i ni gyd.

Steve Thomas, Arweinydd Cyngor Blaenau Gwent


Yr Arweinydd Steve Thomas a'r Aelod Cabinet John Morgan gyda pherchennog busnes Tredegar, Beth Donelon.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent County Borough Council

Y tu mewn >>


Gwirfoddolwyr yn helpu i ddarparu cyfleoedd chwarae ***gweler tudalen 3***


Cymuned Swffryd wedi paentio eu parc ***gweler tudalen 5***


Trawsnewid eiddo yng nghanol y dref ***gweler tudalen 6***


Y Diweddaraf am Falchder yn y Lle Tredegar ***gweler tudalen 7***

Gwaith ar domen lo Cwmtyleri yn cyrraedd carreg filltir fawr



Mae gwaith gwella cam cyntaf mewn hen domen lo yng Nghwmtyleri wedi'i gwblhau.

Cafodd deugain o gartrefi eu gwacáu yn dilyn y tirlithriad ar 24 Tachwedd 2024. Gan weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid drwy Gynllun Grant Diogelwch Tomenni Glo, sicrhaodd y Cyngor £1.3 miliwn ar gyfer cam un a £3 miliwn ychwanegol ar gyfer cam dau dros y ddwy flynedd nesaf.

Canolbwyntiodd y cam cyntaf ar wella rheolaeth dŵr ***(gw. llun)*** a bydd gwaith ar gam dau yn dechrau yn gynnar y flwyddyn nesaf a bydd yn canolbwyntio ar ail-broffilio llethrau'r domen.

Bydd hyn yn cynnwys ail-lunio ardaloedd serth, ychwanegu mwy o ddraeniad a chyflawni gwaith tirlunio, gan gynnwys hau glaswellt a phlannu coed.

Drwy gydol y gwaith, mae'r Cyngor wedi cadw trigolion yn rhan o'r broses ac wedi'u hysbysu drwy gyfarfodydd rheolaidd, gan wrando ar eu pryderon a gweithredu arnynt. Mae'r gymuned hefyd wedi cael cyfle i weld y gwaith sydd wedi'i gwblhau drostynt eu hunain.

Dywedodd y Cynghorydd Tommy Smith, Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth a'r Amgylchedd: "Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r gymuned i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i drigolion ac i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Drwy gydweithio, rydym yn gwneud y safle hwn yn fwy diogel ac yn fwy gwydn ar gyfer y dyfodol."

Hybiau Cymunedol Blaenau Gwent

LLEOLIAD	ORIAU AGOR	DYDD
Llyfrgell Abertyleri	**AGOR:** 9yb -5yp - Mawrth, Iau a Gwener **AR GAU:** 1yp - 2yp **AGOR:** 10yb - 5yp - Mercher **AR GAU:** 1yp - 2yp	Mawrth, Mercher, Iau a Gwener
Llyfrgell Brynmawr	**AGOR:** 9yb -5yp **AR GAU:** 1yp - 2yp	Llun, Mawrth, Iau a Gwener
Llyfrgell Glynebwy	**AGOR:** 9yb -5yp **AR GAU:** 1yp - 2yp	Llun, Mawrth, Iau a Gwener
Llyfrgell Tredegar	**AGOR:** 9yb -5yp - Llun, Mawrth a Gwener **AR GAU:** 1yp - 2yp **AGOR:** 10yb - 5yp - Mercher **AR GAU:** 1yp - 2yp	Llun, Mawrth, Mercher a Gwener
Llyfrgell Blaenau	**AGOR:** 9:30yb - 4yp **AR GAU:** 1yb - 2yp	Llun
Llyfrgell Cwm	**AGOR:** 9:30yb - 5yp **AR GAU:** 1yb - 2yp	Iau
Sefydliad Llanhiledd	**AGOR:** 10yb - 4yp **AR GAU:** 1yb - 2yp	Mercher cyntaf pob mis

Angen gwybodaethneu gymorth gyda gwasanaethau'r Cyngor?

Mae llawer o ffyrdd o gysylltu â'r Cyngor a chael gwasanaethau ar-lein, ond os hoffech siarad â swyddog gwasanaeth cwsmeriaid wyneb yn wyneb, mae gennym Hybiau Cymunedol ym mhob llyfrgell yn y fwrdeistref.

Yma gallwch gael cymorth a chyngor am:

- Dreth y Cyngor ac Ardrethi Annomestig.
- Budd-daliadau gan gynnwys Credyd Cynhwysol, gostyngiad Treth y Cyngor, prydau ysgol am ddim, grantiau dillad ysgol a gordal budd-daliadau.
- Cynllun Bathodyn Glas
- Priffyrdd a goleuadau stryd
- Gwastraff ac Ailgylchu

Gallwch hefyd wneud taliadau (cerdyn yn unig) a chasglu bagiau ailgylchu batris a gwastraff bwyd. Ar ddiwrnodau penodol, mae Cyngor ar Bopeth ar gael hefyd, gweler ein gwefan am ragor o fanylion. Ffyrdd eraill o gysyltu â'r cyngor:

- **Fy Ngwasanaethau:** cofrestrwch neu mewngofnodwch drwy ein gwefan
- **E-bost:** info@blaenau-gwent.gov.uk
- **Ap BG:** ar gael i'w lawrlwytho ar ddyfeisiau symudol
- **Ffôn:** 01495 311556 (rhif y tu allan i oriau hefyd)

Mae gan ein hybiau hefyd Swyddogion Allgáu Digidol ar gael i helpu unrhyw un sy'n cael trafferth gyda gwasanaethau ar-lein – galwch i'w gweld!

Pentref y Fargen

Diolch i bawb a ddaeth i ymweld â'n pentrefi Y Fargen cyntaf ym Mlaenau Gwent, ym Mrynmawr a Thredegar.







Daeth y digwyddiadau â nifer o wasanaethau'r Cyngor a phartneriaid allweddol gan gynnwys Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent ynghyd i ddangos sut rydym yn gweithio i wella bywydau pobl a'r ardal leol, a sut y gallant gymryd rhan yn eu cymuned. Mae mwy o bentrefi Y Fargen wedi'u trefnu ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Dysgwch fwy am Fargen Blaenau Gwent ar wefan cyngor Blaenau Gwent. Am gyfleoedd gwirfoddoli, ewch i: www.gavo.org.uk/blaenau-gwent

CYMRYD RHAN Blaenau Gwent!

Mae gennym ffordd newydd a chyffrous o ymgysylltu ac ymgynghori â phobl leol – Cymryd Rhan Blaenau Gwent.

Os hoffech chi leisio eich barn ar ymgynghoriadau'r Cyngor a chael y wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau a chynlluniau pwysig, ymunwch â'n platfform ymgysylltu newydd nawr.

Mae pobl eisoes wedi bod yn dweud eu dweud am y buddsoddiad o £750,000 ym Mharc Llesiant Brynmawr, y Map Rhwydwaith Teithio Llesol a'n rhaglen Trefi Gyda'n Gilydd. Mae cofrestru yn gyflym ac yn hawdd iawn.



Sganiwch y cod QR i gofrestru nawr. Gallwch hefyd ddysgu sut i gymryd rhan fwy gweithredol yn eich cymuned a gweithio gyda ni drwy y Fargen Blaenau Gwent.



Cyhoeddir Cyswllt BG gan Gyngor Blaenau Gwent

Mae'n costio 18c i ddylunio, argraffu a chludo i'ch cartref. Ar ôl darllen, rhowch y papur i'w ailgylchu.

Gadewch i Ni Siarad - Byw ym Mlaenau Gwent

Mae arolwg Gadewch i Ni Siarad - Byw ym Mlaenau Gwent yn gyfle i chi leisio'ch barn ar yr hyn sy'n bwysig i chi am fyw ym Mlaenau Gwent, gan gynnwys eich ardal leol, y gwasanaethau cyngor rydych yn eu gwerthfawrogi, yn ogystal â bywyd cymunedol, llesiant a democratiaeth leol.

Bydd eich barn yn helpu i gefnogi nodau Bargen Blaenau Gwent i greu cymunedau ffyniannus, cysylltiedig lle gall pobl fyw'n dda a theimlo eu bod yn cael eu cefnogi.



Ydych chi wedi cofrestru i bleidleisio?

Bydd pleidleiswyr yn mynd i'r polau fis Mai nesaf i ethol eu cynghorwyr lleol.

Etholir 33 o gynghorwyr mewn 14 ward ar draws y fwrdeistref sirol. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cofrestru i bleidleisio nawr. Mae'n gyflym ac yn hawdd gwneud hynny ar wefan **www.gov.uk**. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am bleidleisio, neu i gael gwybod a ydych wedi cofrestru, **Ffôn:** 01495 369706 / 369707.



Dilynwch Gyngor Blaenau Gwent ar y cyfryngau cymdeithasol

Blynyddoedd cynnar - adeiladu dyfodol mwy disglair

Ym Mlaenau Gwent, rydym wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid a'n cymunedau i sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd. Lle gallwn, rydym yn gweithio mewn ffordd wahanol drwy Y Fargen Blaenau Gwent i ddod â chymunedau a theuluoedd gyda ni ar daith lle gallant gefnogi eu hunain yn ogystal â'r rhai o'u cwmpas. Rydym yn adeiladu cymunedau sy'n decach, yn iachach ac yn gryfach.

Meithrin a Maethu

Y cyngor yw'r cyntaf yng Ngwent i lansio llwybr maeth newydd ar gyfer y blynyddoedd cynnar, sy'n cefnogi teuluoedd i fwyta'n iach o'r cyfnod beichiogrwydd hyd at y blynyddoedd cyn ysgol.

Datblygwyd Meithrin a Maethu mewn ymateb i dueddiadau gordewdra ymhlith plant, ac mae'n darparu arweiniad cyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth ynghylch bwyta'n iach, maeth babanod a datblygiad plant.

Mae hyn yn adeiladu ar lwyddiant enfawr ymgyrch Croesawu Bwydo ar y Fron Blaenau Gwent ac yn anelu at helpu teuluoedd i sefydlu arferion iach yn gynnar.

Mae gwirfoddolwyr mewn grwpiau chwarae ledled y fwrdeistref hefyd yn hyrwyddo'r fenter.

Mae data diweddar yn dangos cynnydd calonogol, mae'r gyfran o blant pedair i bum oed sy'n cael eu hystyried yn rhai dros eu pwysau neu'n ordew wedi gostwng o 28.9% yn 2021-22 i 25% yn 2024-25, gan roi'r sir o dan y cyfartaledd yng Nghymru.

I nodi'r lansiad, cynhaliodd Dechrau'n Deg weithgareddau i deuluoedd ar draws ei hybiau.

Amlygodd adborth gan deuluoedd fwy o hyder ynghylch bwyta'n iach, gwell ymwybyddiaeth o faint dognau, a phrofiadau cadarnhaol o blant yn rhoi cynnig ar fwydydd newydd.

"Rydym wedi mwynhau'r sesiwn; roedd yn hyfryd i'r plant baratoi eu bwyd eu hunain."

"Sesiwn wych. Roedd hi'n braf gallu paratoi pryd o fwyd gyda'n gilydd."

"Rwy'n hoffi'r llwybr a gwybod ble i gael help. Mae cael canllawiau clir o gyfnod y beichiogrwydd hyd at y cyfnod cyn-ysgol yn gwneud i mi deimlo'n fwy hyderus."

"Mae'r llwybr maeth yn darparu cyngor ymarferol, sicrwydd a hyder i feithrin arferion iachach i'r teulu."



Gwirfoddolwyr yn helpu galw heibio a chwarae

Mae rhieni sy'n gwirfoddoli yn helpu i gynnal sesiynau Galw heibio a Chwarae i blant.

Mae'r sesiynau'n helpu teuluoedd i feithrin hyder, datblygu sgiliau newydd a dod o hyd i rwydweithiau cymorth yn eu cymuned. Mae rhieni a gofalwyr yn arwain y broses ac yn ganolog i lunio a darparu cymorth i deuluoedd. Mae hefyd yn rhyddhau amser i weithwyr proffesiynol ganolbwyntio ar y teuluoedd mwyaf agored i niwed.

Mae'r sesiynau wedi'u llunio gan y rhieni eu hunain ac yn cynnig amgylchedd croesawgar lle gall teuluoedd rannu profiadau, cael mynediad at gymorth a datblygu sgiliau ymarferol, gan gynnwys cyfleoedd i ymgymryd â hyfforddiant fel cymorth cyntaf pediatrig. Mae grymuso rhieni a gofalwyr i gefnogi ei gilydd yn golygu bod plant a theuluoedd yn ffynnu, ac yn creu buddion parhaol ar gyfer datblygiad, llesiant a pharodrwydd ar gyfer yr ysgol yn y dyfodol.



Sganiwch y cod QR a gwyliwch y fideo i ddysgu mwy am 'Galw heibio a Chwarae'.

Plant yn Paratoi gyda Tedi

Mae canllaw i helpu plant cyn oed ysgol i ddatblygu'r hyder, yr annibyniaeth a'r sgiliau y maent eu hangen i ddecrhau yn yr ysgol wedi ei lansio ym Mlanenau Gwent

Mae Paratoi gyda Tedi'n rhan o ymgyrch ehangach ar barodrwydd ar gyfer yr ysgol, sy'n cydnabod bod paratoi plentyn ar gyfer yr ysgol yn daith ar y cyd rhwng teuluoedd, darparwyr gofal plant a lleoliadau addysg blynyddoedd cynnar.

Mae 'Paratoi gyda Tedi' yn rhoi arweiniad ymarferol i rieni a gofalwyr ar amrywiaeth o feysydd datblygiadol pwysig, gan gynnwys cyfathrebu ac iaith, sgiliau annibyniaeth fel gwisgo a dysgu defnyddio'r toiled, sefydlu arferion, magu hyder, rheoli emosiynau ac addasu i newid.

Mae'r canllaw hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd datblygiad cymdeithasol, gan annog sgiliau fel rhannu, cymryd tro, gwneud ffrindiau a deall sut i chwarae ar y cyd ag eraill.

Dywedodd y Cyng. Sue Edmunds, Aelod Cabinet dros Blant, Pobl Ifanc a Theuluoedd: "Mae ein harth gyfeillgar, Tedi, yn helpu teuluoedd â phlant ifanc i fod yn barod ar gyfer byd dysgu. Rydym am helpu pob plentyn i gyrraedd ei botensial llawn a gwyddom fod hynny'n dechrau gartref. Drwy ddatblygu sgiliau bywyd hanfodol o oedran cynnar, gall plant deimlo'n fwy hyderus, gwydn ac yn barod i groesawu'r cyfnod pontio cyffrous i'r ysgol a thu hwnt."



Prosiect i dadau yn cynnig cymorth

Mae tadau ar draws y fwrdeistref yn helpu ei gilydd i ymdopi â heriau bod yn rhiant a bywyd teuluol.

Mae Prosiect Cymorth i Dadau Blaenau Gwent yn darparu cymorth ymarferol ac emosiynol i dadau, darpar dadau, llys-dadau, gofalwyr maeth, tad-cuod/teidiau, a gofalwyr gwrywaidd sydd â phlant rhwng 0 ac 18 oed. Gall tadau gael cymorth gydag amrywiaeth eang o faterion, gan gynnwys iechyd a llesiant plant, iechyd meddwl, perthnasoedd teuluol, materion cartref ac ariannol, a threfniadau cyswllt.

Gallant hefyd fanteisio ar gyfleoedd i feithrin hyder, gweithgareddau teuluol a rhaglenni arbenigol sydd wedi'u cynllunio i gryfhau sgiliau magu plant.

Mae'r prosiect hefyd yn cynnig grwpiau cerdded, boreau coffi, cyfleoedd gwirfoddoli, a chymorth i ddychwelyd i'r gwaith neu i hyfforddiant. Dan ofal tim o weithwyr cymorth profiadol. Nod y proseict yw sicrhau nad yw tadau'n teimlo'n unig wrth wynebu heriau.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Hyb Cymorth i Deuluoedd ar 01495 315700 neu anfonwch e-bost at familysupporthub@blaenau-gwent.gov.uk



Dysgu gydol oes, uchelgais a gwydnwch

YN GRYNO

Ardaloedd chwarae wedi'u hadnewyddu

Mae dwy ardal chwarae i blant arall wedi'u hadnewyddu yn y fwrdeistref. Mae meysydd chwarae yn Newtown a Stryd Pennant, Glynebwy, wedi cael offer hollol newydd, modern a hygyrch, diolch i gyllid Llywodraeth Cymru a'r cyngor.

Dillad ysgol am ddim yn helpu i arbed arian ac achub y blaned

Mae gwasanaeth ar-lein newydd wedi lansio i helpu teuluoedd i arbed arian, lleihau gwastraff, a gwarchod yr amgylchedd.

Mae'r siop cyfnewid ddigidol yn galluogi teuluoedd i restru dillad ysgol o ansawdd da sydd wedi tyfu'n rhy hen o fewn cymuned eu hysgol a gofyn am eitemau sydd eu hangen arnynt am ddim.

Dywedodd y Cyng. Sue Edmunds, Aelod Cabinet dros Blant, Pobl Ifanc a Theuluoedd: "Mae'r llwyfan hwn, sy'n rhad ac am ddim i'w ddefnyddio, yn cefnogi Y Fargen ym Mlaenau Gwent, sy'n canolbwyntio ar weithredu cymunedol a chydweithio i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau."

Cofrestrwch a chyfnewidiwch heddiw yn FreeSchoolClothes.com neu **e-bostiwch:** support@freeschoolclothes.com.

Llais disgyblion yn arwain at welliannau diogelwch yn Ysgol Gynradd Ebwy Fawr



Mae Heddlu Bach Ysgol Gynradd Ebwy Fawr wedi helpu i sicrhau gwelliannau diogelwch ffyrdd yn eu hysgol.

Ar ôl codi pryderon ynghylch parcio yn ystod amseroedd gollwng a chasglu yn yr ysgol, trefnodd y cyngor i folardiau newydd gael eu gosod i atal pobl rhag parcio ar y palmant. Mae hyn wedi helpu gweledegd ac wedi creu llwybr mwy diogel i ddisgyblion a theuluoedd sy'n teithio i'r ysgol ac adref.

Bu'r Aelod Cabinet dros Blant, Pobl Ifanc a Theuluoedd, y Cynghorydd Sue Edmunds, a'r heddlu lleol yn gweithio'n agos gyda'r disgyblion ar eu nod.

Dywedodd y Cynghorydd Edmunds: "Roedd yn wych cwrdd â'r disgyblion sy'n Heddlu Bach a chlywed eu pryderon. Siaradon nhw'n hyderus am y materion sy'n effeithio ar ddiogelwch ffyrdd o amgylch eu hysgol ac roeddent am wneud gwahaniaeth cadarnhaol yn eu cymuned. Mae'r canlyniad yn dangos pa mor bwysig yw gwrando ar bobl ifanc. Mae eu harsylwadau wedi helpu i nodi datrysiad ymarferol a fydd yn gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio'r ardal".

Mae Heddlu Bach yn fenter gan Heddlu Gwent ar gyfer disgyblion 9 i 11 oed, ac mae'n darparu cyfle gwirfoddoli hwyliog, rhyngweithiol ac addysgol sy'n annog pobl ifanc i chwarae rhan weithredol wrth wella eu cymunedau a hyrwyddo diogelwch yn amgylchedd eu hysgol.

Disgyblion yn cael blas ar ddyfodol iachach

Mae disgyblion Ysgol Gynradd Gymunedol Willowtown yn Ebwy Fawr wedi bod yn dysgu am fwyta'n iach ac o ble mae eu bwyd yn dod fel rhan o fenter ledled Cymru sy'n cefnogi ffyrdd iachach o fyw ac amaethyddiaeth leol.

Mae'r ysgol yn un o bum ysgol gynradd ym Mlaenau Gwent sy'n cymryd rhan yn rhaglen Tyfu Dyfodol Iachach Castell Howell Foods, sy'n dod â thyfwyr Cymreig, ysgolion, arlwywyr a chymunedau ynghyd i gynyddu'r defnydd o gynnyrch organig a dyfir yn lleol mewn prydau ysgol, gan annog dewisiadau bwyd iach o oedran cynnar.

Fel rhan o'r rhaglen, cymerodd y disgyblion ran yn ymgyrch Bwyd Archarwyr, dan arweiniad Swyddog Ymgysylltu ESG Castell Howell, Steff Evans, cyn chwaraewr rygbi'r Scarlets a Chymru. Trwy weithgareddau rhyngweithiol, dysgodd y plant sut mae moron, brocoli a blodfresych yn helpu i roi'r fitaminau a'r maetholion hanfodol sydd eu hangen ar eu cyrff i weithredu'n iach.

Bu'r sesiwn hefyd yn archwilio'r daith y mae bwyd yn ei gwneud o'r fferm i'r plât, pwysigrwydd cefnogi ffermwyr lleol, a sut y gall cynnyrch ffres a chynaliadwy helpu i greu cymunedau iachach.



Gwobr gyntaf i ysgol uwchradd

Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr yw Ysgol STEM y Flwyddyn ym Mlaenau Gwent.

Dyma'r tro cyntaf i ysgol uwchradd ennill y wobr, a gyflwynir gan y cyngor, sy'n cydnabod ymrwymiad eithriadol i wyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg mewn addysg.

Mae cannoedd o ddisgyblion yn yr ysgol wedi elwa o weithdai peirianneg awyrofod, digwyddiadau gyrfaoedd gofal iechyd, prosiectau cynaliadwyedd, heriau codio a phartneriaethau gyda diwydiant a gynhelir trwy gydol y flwyddyn ysgol.

Cafodd enw'r ysgol ei gynnwys hefyd yn nhaith Artemis II NASA ym mis Ebrill, y daith gyntaf â chriw i deithio o amgylch y lleuad mewn mwy na 50 mlynedd, gan roi Ebwy Fawr wrth galon un o raglenni archwilio'r gofod mwyaf uchelgeisiol y byd.

Trwy ei buddsoddiad parhaus mewn addysg STEM, mae'r ysgol yn helpu disgyblion i adeiladu'r wybodaeth, y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen arnynt i lwyddo mewn byd cynyddol dechnolegol.

Ysgol Sant Illtyd yn dathlu adroddiad arolygu

Da iawn i bawb yn Ysgol Gynradd Sant Illtyd, Llanhiledd, am eu hadroddiad Estyn.

Cafodd yr ysgol glod am amgylchedd 'cyfeillgar, croesawgar a chynhwysol'. Ymhlith y nifer o uchafbwyntiau, nododd yr adroddiad fod llesiant disgyblion yn ganolog i fywyd bob dydd, gan greu amgylchedd cynnes a meithringar lle mae plant yn ffynnu, a lle mae disgyblion yn ymgysylltu'n frwdfrydig â gwersi ac yn elwa ar amgylchedd dysgu deniadol sydd â digonedd o adnoddau.

Cydnabu'r arolygwyr hefyd y cynnydd cryf a wnaed gan lawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai o gartrefi incwm isel a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Nodwyd dull 'effeithiol a thrylwyr' yr ysgol o gefnogi disgyblion ag anghenion ychwanegol fel cryfder arbennig, gyda chymorth pwrpasol yn sicrhau bod anghenion unigol yn cael eu diwallu.

Dywedodd y Cynghorydd Sue Edmunds, Aelod Cabinet y Cyngor dros Blant, Pobl Ifanc a Theuluoedd: "Llongyfarchiadau i Ysgol Gynradd Sant Illtyd ar yr adroddiad gwych hwn. Mae rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn, a'r cyfleoedd i ffynnu, yn flaenoriaeth i ni wrth i ni weithio i rymuso plant a phobl ifanc i fyw bywydau gwybodus, annibynnol ac iach. Da iawn i bawb fu'n ymwneud â hyn."

Dysgwch pam fod disgyblion Sant Illtyd yn caru mynd i'r ysgol - Sganiwch y Cod QR



Lles drwy arweinyddiaeth gymunedol

Plac ailgylchiedig gan artistiaid cymunedol

Mae siop ailddefnyddio newydd yng Nglyn Ebwy wedi dadorchuddio plac wedi'i wneud yn gyfan gwbl o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu.

Cafodd arwydd newydd y Den Mawr ei greu gan grwpiau cymunedol gyda chefnogaeth gan wasanaeth celfyddydau'r cyngor, BG Arts, a'r artist Stephanie Roberts, fel rhan o brosiect Trailblazer - Make, a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae pob llythyren yn yr arwydd yn cynrychioli'r amrywiaeth o eitemau sydd yn siop The Big Den, yng Nghanolfan Ailgylchu Dyffryn Newydd.

Y grwpiau a gyfrannodd at y gwaith celf oedd:

- Grŵp Crefft Inside Out, Tredegar
- Drop in and Draw, Canolfan Chwaraeon Glyn Ebwy
- Grŵp Gofalwyr Blodau'r Haul, Glyn Ebwy
- Pobl Ifanc trwy dîm Gwasanaeth Ieuenctid 16-25 Blaenau Gwent.

Meddai Bethan Lewis, o BG Arts: "Mae cymryd rhan wedi helpu cyfranogwyr i ddysgu sgiliau newydd, magu hyder, cysylltu ag eraill a chyfrannu at ddarn cydweithredol sy'n cael ei ddangos yn eu cymuned leol. Mae hefyd wedi helpu i godi eu hymwybyddiaeth o gynaliadwyedd, ailddefnyddio eitemau ac i feddwl yn greadigol am sut y gellir defnyddio deunyddiau gwastraff".



Mynd i'r afael ag yfed dan oed

Mae dwy Bartneriaeth Alcohol Gymunedol newydd wedi'u lansio yng Nglynebwy a Thredegar, gan ddod â sefydliadau ynghyd i leihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol ymhlith pobl ifanc a chefnogi cymunedau mwy diogel.

Mae hon yn flaenoriaeth allweddol i Dasglu Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Blaenau Gwent, dan arweiniad y Cyngor, sydd wedi cydnabod yr effaith y gall yfed dan oed ei chael ar iechyd, llesiant a chyfleoedd bywyd pobl ifanc, yn ogystal ag ar y gymuned ehangach.

Mae'r partneriaid wedi ymrwymo i:

- **Addysgu a chefnogi pobl ifanc**
- **Cyfyngu ar fynediad at alcohol drwy fynd i'r afael â gwerthiannau anghyfreithlon**
- **Sicrhau cyllid i ddarparu dewisiadau amgen a gweithgareddau cadarnhaol i bobl ifanc**

Mae'r partneriaid yn cynnwys y Cyngor, Heddlu Gwent, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a Chartrefi Cymunedol Tai Calon.

Gall y Partneriaethau Alcohol Cymunedol wneud cais am gyllid i gefnogi cynlluniau wedi eu targedu, a digwyddodd amrywiaeth o weithgareddau i bobl ifanc dros yr haf



Gwaith tîm yn allweddol i lwyddiant ymgyrch glanhau afon

Ymunodd gwirfoddolwyr â'r Cyngor a sefydliadau amgylcheddol ar gyfer prosiect glanhau afonydd a bioamrywiaeth ym Mhyllau Bedwellte, Tredegar.

Buont yn casglu sbwriel, yn llusgo malurion o'r afon ac yn cymryd rhan mewn samplo dŵr ac arolygon bioamrywiaeth.

Fe wnaethon nhw hefyd ar gael gwared ar Jac y Neidiwr, rhywogaeth ymledol. Mae cael gwared â hwn yn helpu i warchod ecosystemau lleol ac yn adfer cynefinoedd brodorol.

Roedd y prosiect yn rhan o Raglen Afonydd Iach Groundwork Cymru, sy'n anelu at wella iechyd afonydd, gwella bioamrywiaeth ac ymgysylltu â chymunedau wrth ddiogelu dyfrffyrdd lleol.

Dywedodd Cathy Johnson, gwirfoddolwraig: "Rwy'n gwirfoddoli oherwydd fy mod eisiau helpu i gadw'r amgylchedd yn lân. Rwy'n mwynhau bod yn yr awyr agored yn yr awyr iach, ac mae yna wir ymdeimlad o gyflawniad wrth wneud gwahaniaeth gweladwy i'r ardal leol."



Y gymuned yn helpu i baentio eu parc

Diolch i'r holl wirfoddolwyr a ddaeth i'n digwyddiad 'Paentiwch Eich Parc' yn Swffryd fid Hydref.

Mae'r digwyddiad hwn dan arweiniad y gymuned yn gweld gwirfoddolwyr yn ymuno â'r Cyngor a sefydliadau lleol i roi golwg newydd i'w parc lleol.

Darperir yr holl baent ac offer gan y Cyngor, ac mae gwirfoddolwyr yn rhoi o'u hamser, yn torchi llewys ac yn helpu i wneud y gwaith.

Mae hyn oll yn rhan o Y Fargen Blaenau Gwent, sy'n golygu gweithio'n wahanol gyda'n cymunedau i'w gwneud mor dda â phosibl ac i helpu i leihau anghydraddoldebau.

I fynegi diddordeb mewn dod â Paentiwch eich Parc i'ch ardal, ewch i Cymryd Rhan Blaenau Gwent nawr.





Gwobr y Faner Werdd ar gyfer coetiroedd

Da iawn i'r holl wirfoddolwyr yng Nghoetiroedd Cwm Sirhywi sydd wedi ennill y Faner Werdd gan Cadwch Gymru'n Daclus.

Mae'r Faner Werdd wedi'i dyfarnu i gydnabod ymdrechion amgylcheddol y grŵp, cyfleusterau gwych i ymwelwyr, a gwaith o fewn y gymuned leol.

Mae cynlluniau fel dosbarthiadau O'r Pridd i'r Plât a choginio yn y gymuned a'r ysgol leol yn helpu llesiant cymunedol drwy hyrwyddo cynaliadwyedd bwyd a dewisiadau iachus Gwyliwch ein fideo yn dangos peth o'u gwaith gwych yma.



Sganiwch y cod QR i wylio gwirfoddolwyr Coetiroedd Sirhywi wrth eu gwaith

Adnewyddu gardd Cwrt Mytton

Mae preswylwyr yng nghartref gofal y Cyngor yn mwynhau amgylchedd awyr agored sy'n fwy disglair ac yn fwy croesawgar, diolch i ymdrechion gwirfoddolwyr.

Bu gwirfoddolwyr o British Gas, Cynllun Cartrefi Clyd Nyth Llywodraeth Cymru, a'r gymuned leol yn gweithio ochr yn ochr â staff y Cyngor i adnewyddu'r mannau awyr agored.



Economi ffyniannus, lleoedd bywiog

YN GRYNO

Busnesau'n cael eu hanrhydeddu mewn gwobrau

Llongyfarchiadau i'r holl fusnesau'r a gyrhaeddodd y rhestr fer ar gyfer Gwobrau Busnes Sir Fynwy, Torfaen a Blaenau Gwent 2026.

Dilynwch ein sianeli i gael mwy o wybodaeth am bwy a enillodd wobrau mawr yn Nhachwedd.

Gwefrwyr ymyl y ffordd arloesol - y cyntaf yn y DU

Mae'r Cyngor wedi gosod y cyntaf yn y DU o dechnoleg gwefru ymyl y ffordd (Pierburg Curb Charger) ar gyfer cerbydau trydan.

Mae'r cynllun, sy'n cwmpasu wyth safle, yn gyfle i brofi datrysiad gwefru amgen sy'n agos at y cartref ar gyfer preswylwyr efallai nad oes ganddynt fynediad at le parcio oddi ar y stryd, neu sy'n methu elwa ar ddulliau gwefru eraill gartref.

Gwaith ar yr A4046 ar y gweill

Mae cynllun gwella mawr gwerth £2.5 miliwn ar yr A4046 rhwng Aber-bîg a Cwm ar y gweill. Mae'r ffordd yn llwybr pwysig i breswylwyr, busnesau a'r rhai sy'n cymudo.

Mae'r gwaith wedi'i drefnu i barhau tan wanwyn 2027, yn dibynnu ar y tywydd. Bydd yn cynnwys gwelliannau i ddraeniad y briffordd, ail-wynebu'r ffordd, ailosod cyrbiau, marciau ffordd newydd, arwyddion gwell a gwelliannau eraill i seilwaith y briffordd.



Buddsoddiad yn trawsnewid eiddo ar y stryd fawr

Mae tri eiddo yng nghanol y dref wedi cael eu hadnewyddu diolch i grant gan Lywodraeth Cymru.

Mae grant Creu Lle Trawsnewid Trefi yn anelu at helpu pobl i wella eu busnesau, cefnogi cyflogaeth leol a chyfrannu at wella ac adfywio strydoedd mawr.

Rhoddwyd y cyllid i:

Homestead Café, Stryd Bailey, Brynmawr

Mae'r lle bwyta hwn ar sgwâr y dref yn Brynmawr wedi cael ei drawsnewid yn dilyn rhaglen helaeth o waith a oedd yn cynnwys to newydd (gan gynnwys paneli ffotofoltäig a thechnoleg batri), rendr inswleiddio ar dri ochr yr adeilad, a ffenestri newydd a osodwyd yn unol â chymeriad gwreiddiol yr adeilad.

Classic Fish Bar, Stryd Bailey, Brynmawr

Mae'r siop sglodion boblogaidd wedi gwella'n sylweddol diolch i do newydd sy'n cynnwys paneli ffotofoltäig a thechnoleg storio batri; gwaith rendro ac ailosod blaenau'r siop yn y tu blaen a'r cefn. Mae mân waith hefyd wedi'i wneud i'r gofod mewnol – gan gynnwys gosod teils a goleuadau gwell.



Positif Care, Abertyleri

Mae'r eiddo hwn, a oedd yn wag gynt, wedi elwa o flaen siop dwbl newydd, arwyddion newydd, rendr allanol, ffenestri newydd ar y llawr uchaf a gwaith ailosod to sy'n cynnwys paneli ffotofoltäig. Bellach, mae'r eiddo'n gweithredu fel swyddfa/hyb i'r rhai sy'n gweithio yn y sector gofal preswyl preifat i blant.





Canolfan siopa yn rhan o gynllun adfywio uchelgeisiol

Mae Canolfan Siopa Gwent yn Nhredegar wedi cael ei phrynu gan y Cyngor fel rhan o gynlluniau adfywio hirdymor ac uchelgeisiol ar gyfer y dref.

Ariannwyd y pryniant drwy raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru a Chronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU.

Y nod tymor byr yw gwella golwg y ganolfan, ac mae gwaith glanhau ac atgyweirio wedi bod yn digwydd dros y misoedd diwethaf. Bydd y Cyngor hefyd yn ceisio denu busnesau i'r eiddo gwag.



Mae'r ganolfan siopa yn ased allweddol yn y dref, felly mae hwn yn gam cadarnhaol iawn ymlaen o ran adfywio ehangach yr ardal, yn ogystal â'r buddsoddiad o £20 miliwn o'r gronfa Balchder Bro.

Digwyddiadau yn llwyddiant mawr

Mae canol trefi Blaenau Gwent wedi bod yn fywiog iawn gyda chyfres o ddigwyddiadau a drefnwyd gan y cyngor dros y misoedd diwethaf

O ddiwrnodau ar y traeth, dwy ŵyl fwyd, sioeau ceir clasurol a ffeiriau hwyl i ddigwyddiadau Calan Gaeaf, mae llawer wedi bod ar gael, i ddenu pobl i'r stryd fawr.

Diolch i bawb sydd wedi ein cefnogi. Cadwch lygad ar duda;ennau cyfryngau cymdeithasol a gwefan y cyngor am ddigwyddiadau'r Nadolig.





Llwybr murluniau Y Golau yn ein Dwylo i groesi bwrdeistrefi

Mae'r murlun yn darlunio Rhiannon, brenhines mytholeg Cymru, sy'n creu 'tapestri' o'r dirwedd sy'n diffinio Abertyleri.

Mae'r murlun wedi'i leoli yng nghanol y dref ac roedd yn waith gan Walls by Paul.

Bydd y murlun nawr yn rhan o lwybr murlun sy'n cael ei ddatblygu gan gynghorau Blaenau Gwent a Thorfaen. Bydd y llwybr murluniau Y Golau yn ein Dwylo yn symbol o arweiniad, cynhesrwydd, gobaith a sut mae treftadaeth leol yn cael ei dwyn ymlaen a'i rhannu. Bydd murluniau newydd a phresennol yn cael eu dwyn ynghyd mewn llwybr a fydd ar gael i bobl ei ddilyn ar-lein. Cadwch olwg am ragor o wybodaeth am hyn ar ein sianeli. Dilynwch ein sianeli i gael mwy o wybodaeth am y llwybr murluniau.



Darganfyddwch ble gallwch wefru eich cerbyd trydan ym Mlaenau Gwent

CENHADAETH 4

Tref gweddnewidiad cymunedol

Mae menter o'r enw Trefi Gyda'n Gilydd wedi gweld y Cyngor yn gweithio gyda busnesau, grwpiau cymunedol a thrigolion o bob oed i adnewyddu stryd yng nghanol tref Brynmawr.

Dewisodd dros 70% o'r bobl a holwyd Stryd Beaufort ar gyfer y gwaith adnewyddu un diwrnod. Ar y diwrnod, bu gwirfoddolwyr yn helpu i beintio blaenau siopau a dodrefn stryd; glanhau; tynnu chwyn; a gosod potiau planhigion a blodau newydd. Mae murlun newydd ar thema natur hefyd wedi'i baentio gan artist lleol, Matt Dey, ac mae baner siop newydd yn dweud 'Diolch am gefnogi Canol y Dref Brynmawr' wedi'i gosod.

Mae rhaglen Trefi Gyda'n Gilydd yn rhan o ddull newydd y Cyngor, Y Fargen Blaenau Gwent, o weithio ochr yn ochr â chymunedau. Ariannwyd y gwaith adnewyddu gan Gronfa Effaith Balchder Bro Llywodraeth y DU.

Dywedodd y Cynghorydd John Morgan, Aelod Cabinet dros yr Economi a Lleoedd: "Diolch i bawb a ddaeth draw ar gyfer Trefi Gyda'n Gilydd. Dyma enghraifft berffaith o Y Fargen, sy'n dangos sut y gall cymunedau ddod at ei gilydd gyda'r Cyngor i wella'r ardal lle maent yn byw. Roedd hi'n wych gweld pobl o bob oed yn cymryd rhan, ac roedd y plant yn anhygoel - yn wirioneddol ysbrydoledig. "Drwy weithredu ar y cyd fel hyn, rydym yn gobeithio trawsnewid canol ein trefi yn ardaloedd lle mae pobl eisiau ymweld a busnesau eisiau buddsoddi." **Dilynwch ein cyfryngau cymdeithasol i gael manylion am ragor o ddigwyddiadau Trefi Gyda'n Gilydd.**



Partneriaeth i hybu buddsoddiad

Mae cynghorau Blaenau Gwent a Thorfaen wedi cymeradwyo penodi partner datblygu a buddsoddi i gyflwyno cyfleoedd adfywio a datblygu.

Bydd Willmott Dixon Developments yn helpu i nodi, asesu a datblygu cyfleoedd a all ddarparu cartrefi newydd, cyfleoedd cyflogaeth, gwelliannau seilwaith, mewnfuddsoddiad a buddion cymunedol ehangach ar draws y ddwy ardal gyngor.

Dywedodd y Cynghorydd John Morgan, Aelod o Gabinet Cyngor Blaenau Gwent, Economi a Lle "Mae ein ffocws yn parhau i fod ar ddarparu cartrefi o ansawdd uchel, gwella seilwaith, cefnogi busnesau lleol a chreu'r amodau ar gyfer twf economaidd cynaliadwy. Bydd gweithio gyda phartner strategol yn cryfhau ein gallu i ddatgloi safleoedd cymhleth a chyflwyno prosiectau sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i drigolion ledled y fwrdeistref sirol."



Y FARGEN BLAENAU GWENT CENHADAETH 5

Cymunedau grymus, grym a llwyddiant a rennir

Bwrdd Balchder Bro yn goruchwylio buddsoddiad o £20 miliwn ar gyfer Tredegar

Mae wyth o drigolion lleol wedi cael eu penodi i Fwrdd Cymdogaeth Balchder Bro i helpu i benderfynu sut y caiff £20 miliwn o gyllid Llywodraeth y DU ei fuddsoddi yn Nhredegar.

Bydd yr ardal yn derbyn yr arian o'r rhaglen Balchder Bro dros y 10 mlynedd nesaf. Y nod yw ariannu prosiectau a syniadau a fydd yn adfywio ac yn rhoi bywyd newydd i'r ardal. Mae'r pŵer yn wirioneddol yn nwylo cymunedau lleol i benderfynu sut orau i wario'r arian er budd eu tref. Mae'r ficer lleol, y Parch. Matt Davis, wedi cael ei benodi'n Gadeirydd y Bwrdd, sydd hefyd yn cynnwys cynrychiolydd o'r Cyngor a'r Aelod Seneddol Nick Smith.

Dywedodd Matt: "Mae gennym Fwrdd Cymdogaeth gwych ar waith, sy'n adlewyrchu barn ac amrywiaeth ein cymunedau, ac sy'n awyddus iawn i fwrw ymlaen â Balchder Bro yn Nhredegar. "Gallai'r cyllid hwn helpu i droi syniadau da yn newid parhaol ac adeiladu dyfodol hyderus a llawn gobaith i'r dref; mae gweithio gyda phobl leol yn allweddol, felly dewch yn rhan o'r broses." Mae'r Bwrdd eisoes wedi cynnal cyfarfodydd a digwyddiadau gwybodaeth, gan gynnwys digwyddiad cyllido yn Ashvale ble daeth sefydliadau lleol i gael gwybod am sut y gallai'r cyllid helpu eu gwaith cymunedol. Cyflwynodd y Cyngor Ddyffryn Sirhywi fel yr ardal gymdogaeth i dderbyn y cyllid, yn seiliedig ar feini prawf Llywodraeth y DU.

Dywedodd Arweinydd Cyngor Blaenau Gwent, Steve Thomas: "Mae'r bobl hyn oll yn angerddol iawn am Dredegar a'i dyfodol, ac yn awr mae ganddynt gyfle gwirioneddol i nodi'r blaenoriaethau a sut y gellir gwario'r arian hwn ar bethau sy'n wirioneddol bwysig i bobl leol."

Y trigolion sydd wedi'u penodi i'r bwrdd yw:

- **Busnes a'r Economi:** Ryan Davies
- **Cymuned a Gwirfoddol:** Ken Cowen
- **Yr Amgylchedd**
- Cathy Johnson
- **Cyllid:** Lloyd Harris
- **Iechyd a Lles:** Leon Yandle
- **Sgiliau a Chyflogaeth:** Laura Callaghan
- **Person Ifanc:** Rhiannon Wooldridge
- **Pobl Hŷn:** Sarah Meyrick-Carr



CYMERWCH RAN! Cadwch yn gyfoes â'r newyddion, y digwyddiadau a'r cyfleoedd diweddaraf i leisio'ch barn ar sianeli cyfryngau cymdeithasol Tred 2036. Gallwch hefyd gael y wybodaeth ddiweddaraf a rhannu eich syniadau ar yr hyb Balchder Bro ar Cymryd Rhan Blaenau Gwent.

Ochr yn ochr â'r prif gyllid Balchder Bro, mae cronfa effaith gwerth £1.5 miliwn.

£750,000 yn cael ei wario ar wella'r cyfleusterau ym Mharc Lles Brynmawr, gyda phobl leol yn cael dweud eu dweud am yr hyn yr hoffent ei weld yno a sut y gallan nhw gymryd rhan.

Mae **£590,000** yn cael ei ddyfarnu i sefydliadau lleol. Mae'r arian yn cael ei ddyrannu drwy Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent, ac ymhlith y rhai sy'n elwa mae clybiau chwaraeon, corau a grwpiau cerddorol; grwpiau gwirfoddolwyr natur a lleoliadau cymunedol poblogaidd.

Mae **£160,000** yn cael ei fuddsoddi yn ardaloedd Brynmawr, Blaenau a Nant-y-glo i wneud gwelliannau i ganol y trefi drwy fenter Trefi Gyda'n Gilydd. Mae'r fenter hon yn gweld y gymuned a'r Cyngor yn cydweithio i wella ac edrych ar ôl eu prif strydoedd.



Cefnogwch ganol eich tref a siopwch yn lleol

Sut mae'r cyngor a chymunedau'n paratoi ar gyfer y gaeaf

Rydyn ni'n paratoi ar gyfer y gaeaf

Mae timau'r Cyngor yn brysur yn gwirio cwlferi, cafnau, a draeniau fel rhan o'n paratoadau ar gyfer y gaeaf ym Mlaenau Gwent.

Mae gan y Cyngor 3,400 tunnell o halen, pum cerbyd graeanu mawr sydd hefyd yn gallu gweithredu fel aradr eira, a dau gerbyd graeanu llai. Hefyd, mae'r 600 o finiau halen i gyd yn cael eu hail-lenwi'n barod ar gyfer y gaeaf.

Mae ein gweithlu hefyd yn barod i ymateb 24 awr y dydd trwy gydol y gaeaf. Mae'r gwasanaeth craidd yn cynnwys 30 o yrwyr a swyddogion sydd ar alwad, yn ogystal â'r tîm sy'n cynnal a chadw ein fflyd ar gyfer y gaeaf.

Caiff rhagolygon Y Swyddfa Dywydd eu monitro tair gwaith y dydd, a chaiff tymheredd y ffyrdd ei fonitro gan orsafoedd tywydd ar draws y fwrdeistref. Mae hyn yn galluogi'r cyngor i raeanu, lle a phryd y mae'n fwyaf effeithiol gwneud hynny.

Dywedodd y Cynghorydd Tommy Smith, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth a'r Amgylchedd: "Rydym yn paratoi ar gyfer y gaeaf ac rydym yn annog cymunedau i baratoi hefyd. Cadwch lygad ar ddraeniau a rhowch wybod am unrhyw rwystrau cyn gynted â phosibl. Rydym yn cynnal gwiriadau rheolaidd, ond gall rhwystrau ddigwydd yn sydyn; rydym yn dibynnu ar y gymuned i roi gwybod i ni, fel y gallwn ymateb i broblemau'n gyflym.

"Rydym yn taenu halen ar tua 48% o'n ffyrdd, gyda'r holl ffyrdd dosbarth A a B yn flaenoriaeth. Caiff prif lwybrau bysiau a llwybrau dosbarthu, a ffyrdd o amgylch ysgolion, ardaloedd diwydiannol ac ardaloedd manwerthu, eu blaenoriaethu hefyd ac maen nhw'n cael y rhain eu trin ar sail rhag ofn pan fydd y rhagolygon tywydd yn argymell hynny, tra bydd ardaloedd eraill yn cael eu trin pan fydd adnoddau'n caniatáu.

"Gwnewch yn siŵr hefyd eich bod yn cadw llygad allan am eich cymdogion yn ystod tywydd garw, a chofiwch fod gennym ganolfannau clyd ar agor yn ystod cyfnodau o dywydd oer iawn."

Sganiwch y Cod QR i weld y llwybrau taenu graean ac i ddod o hyd i'r bin graean agosaf atoch



Sut y gallwch chi fod yn barod y gaeaf yma

Gall argyfyngau fel llifogydd, tanau a thoriadau pŵer effeithio arnom i gyd. Gallant ddigwydd yn gyflym a pharhau am ychydig oriau, neu am sawl diwrnod neu wythnos. Isod ceir rhai camau syml i'ch paratoi ar gyfer argyfyngau.

- Byddwch yn Fwy Gwybodus – cofrestrwch ar gyfer rhybuddion tywydd neu lifogydd, a dysgwch gymorth cyntaf sylfaenol.
- Cofrestrwch ar gyfer Cofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth (PSR). Ewch i thepsr.co.uk i weld a ydych yn gymwys i gael cymorth ychwanegol gan ddarparwyr gwasanaethau cyfleustodau yn ystod argyfwng.
- Gwnewch gynllun – ysgrifennwch rifau ffôn mewn argyfwng, manylion yswiriant a gwybodaeth feddygol ar bapur, a'u cadw mewn lle sy'n hawdd ei ddarganfod – hyd yn oed yn y tywyllwch. Cadwch ddogfennau pwysig, fel pasbortau, tystysgrifau geni a pholisïau yswiriant, mewn un lle fel y gallwch eu cymryd yn gyflym os gofynnir i chi adael eich cartref – gelwir hyn yn aml yn 'becyn parod'.

Paratowch eich Cartref

- Gosodwch rybuddion ar eich ffôn a gwiriwch larymau mwg o leiaf unwaith y mis.
- Gwnewch yn siwr eich bod yn gwybod sut i ddiffodd eich nwy, trydan a dŵr - rhag ofn y bydd angen i chi adael eich cartref oherwydd argyfwng.
- Sicrhewch fod gennych yswiriant ar gyfer eich cartref neu fusnes; gydag yswiriant rhag llifogydd os ydych mewn ardal sydd mewn perygl.
- Siaradwch â'ch plant am argyfyngau a'u cynnwys yn y drafodaeth – dysgwch nhw sut a phryd i ffonio 999, a beth ddylen nhw ei wneud os bydd argyfwng, fel tân yn y cartref.
- Trafodwch baratoi ar gyfer argyfyngau gyda'ch ffrindiau, eich teulu a'ch cymdogion. Cyfnewidiwch fanylion cyswllt, ac ystyriwch greu grŵp negeseua gwib lleol.
- Gofynnwch i'ch cymdogion a oes ganddynt anghenion meddygol ychwanegol i'w hystyried mewn argyfwng, a galwch arnynt os bydd argyfwng yn digwydd - yn enwedig os bydd y cyflenwad trydan yn torri.

Paratowch becyn argyfwng ar gyfer y cartref

Meddyliwch pa eitemau y gallai fod eu hangen arnoch gartref yn ystod digwyddiad. Gallai'r rhain gynnwys:

- Tortsh batri neu dortsh sy'n cael ei wefru trwy droi dolen – mae tortsh yn fwy diogel na chanhwyllau.
- Uned bŵer gludadwy ar gyfer gwefru eich ffôn symudol.
- Radio batri neu radio sy'n cael ei wefru trwy droi dolen i gael diweddariadau yn ystod toriad pŵer; gellir defnyddio radio car hefyd.
- Batris sbâr ar gyfer tortsh a'r radio, a batri wrth gefn ar gyfer offer meddygol.
- Pecyn cymorth cyntaf, hylif diheintio dwylo a chadachau gwlyb ar gyfer hylendid personol.
- Dŵr mewn poteli ar gyfer yfed, coginio, hylendid, ac – os oes angen – ar gyfer paratoi llaeth fformiwla i fabanod.
- Bwyd sydd ddim yn darfod yn gyflym ac sy'n barod i'w fwyta, fel cig, ffrwythau neu lysiau mewn tuniau, yn ogystal â nwyddau i fabanod fel cewynnau a llaeth fformiwla.

Parod am Lifogydd

Mae'r Swyddfa Dywydd yn rhagweld gaeaf gwlypach a gwyntog nag arfer, felly mae angen i ni i gyd fod yn barod i weithredu. Y ffordd orau o ddiogelu eich hun a'ch eiddo yw gwybod eich risg o lifogydd a pharatoi ymlaen llaw.

Cam syml yw cofrestru ar gyfer Rhybuddion Llifogydd rhad ac am ddim Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Mae CNC yn monitro glawiad a lefelau afonydd ym Mlaenau Gwent er mwyn darparu rhagolygon llifogydd 24 awr y dydd.

Gyda 1 o bob 7 cartref a busnes yng Nghymru mewn perygl o lifogydd, mae'n bwysicach nag erioed bod trigolion yn gwybod ac yn deall eu risg o lifogydd ac yn cymryd tri cham syml cyn i'r glaw trwm ddechrau disgyn.

Gall rhybuddion llifogydd roi amser gwerthfawr i chi weithredu a lleihau'r risg o lifogydd i'ch anwyliaid, eich cartref, eich busnes a'ch eiddo.

- ***gwiriwch eich risg o lifogydd drwy ddefnyddio'ch cod post ar-lein***
- ***cofrestrwch i gael rhybuddion llifogydd - gallwch ddewis derbyn hysbysiadau drwy e-bost, ffon neu neges destun.***
- ***byddwch yn barod ar gyfer llifogydd pan fo llifogydd yn cael eu rhagweld***

Mae cofrestru yn syml ac yn rhad ac am ddim - ewch i naturalresources.wales/register neu ffoniwch Floodline ar 0345 988 1188. Mae gwefan CNC yn cynnig cyfoeth o wybodaeth i'ch helpu i baratoi ar gyfer llifogydd naturalresources.wales/flooding



Gwybod eich risgiau cymunedol

Mae Cofrestr Risgiau Cymunedol Gwent 2026–27 yn amlygu'r risgiau mwyaf sy'n wynebu ein cymunedau, o lifogydd a thywydd eithafol i golli seilwaith a chlefydau heintus.

Nid yn unig mae'r Gofrestr Risgiau yn egluro'r risgiau; mae hefyd yn rhannu manylion am y gwaith sy'n cael ei wneud ar draws Gwent i leihau effaith argyfyngau a helpu cymunedau i aros yn wydn. Mae cael gwybodaeth yn ein helpu i gyd i fod yn fwy parod.

Chwiliwch ar-lein am Gwent sy'n Barod i gael mwy o wybodaeth am risgiau cymunedol a gwydnwch.



Gwelwch y rhagolygon tywydd diweddaraf trwy www.metoffice.gov.uk